Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH ANABLEDDAU DYSGU:

# Seibiant

## Cynnig seibiant modern a hygyrch.

**Mae hyn yn cynnwys creu system archebu well y gall pobl ag anableddau dysgu, eu rhieni a'u gofalwyr gael mynediad iddi a'i defnyddio'n hawdd, a gwella cefnogaeth gofal seibiant mewn argyfwng.**



### BETH SY'N BWYSIG I BOBL AG ANABLEDDAU DYSGU?

Hoffai pobl ag anabledd dysgu gael dewis o wasanaethau gofal seibiant ar draws y rhanbarth, er mwyn iddyn nhw allu canfod y dewis gorau iddyn nhw a'u rhieni / gofalwyr.

Bydd cynyddu lefelau staffio'n sicrhau fod pobl ag anableddau dysgu'n gallu cael mynediad i leoedd a gwneud gweithgareddau mae nhw eisiau'u gwned pan fyddan nhw gyda'r gwasanaeth.

Bydd gwneud systemau archebu'n hawdd hefyd yn sicrhau fod pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr a rhieni'n gallu cael mynediad i'r gwasanaeth cywir iddyn nhw.



### BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Adolygu'r cynnig presennol sydd ar gael ar draws y rhanbarth, gan gynnwys y lefelau staffio gofynnol i ddarparu gwasanaeth mwy cyfoes.
- Archwilio opsiynau ar gyfer diweddaru'r system archebu ar gyfer y rhai sy'n cael seibiant.
- Gwella'r wybodaeth a'r gefnogaeth ynghylch opsiynau gofal seibiant brys.
- Defnyddio'r arian seibiannau byr newydd i ddiwallu anghenion gofalwyr ar draws y rhanbarth.

### DYWEDODD POBL

**"Weithiau dwi wir eisiau mynd i gael seibiant oherwydd fod angen brêc arna i, ond gall fod mor anodd mynd oherwydd dwi ddim yn gwybod beth fydda i'n ei wneud pan fydda i'n cyrraedd yno."**

### PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Bydd gan bobl ddewis o gynnig seibiant sy'n gweddu orau i'w hanghenion a'u dymuniadau.
- Rhoi sicrwydd i deuluoedd bod seibiant digonol ar gael mewn argyfwng.
- Cyfleoedd seibiant byr ychwanegol ar gael i ofalwyr ar draws y rhanbarth.